

**Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod y Panel Cyngori ar  
Amaethyddiaeth (AAP)  
Cyfarfod 13 – 29 Hydref 2018**

Adeiladau Llywodraeth Cymru, Spa Road East, Llandrindod

**Presennol**

Lionel Walford – Cadeirydd  
Steve Hughson – Aelod Annibynnol  
Darren Williams – FUW  
Will Prichard – NFU  
Ivan Monckton - UNITE

Helen Snow – Geldards

Spencer Conlon – Llywodraeth Cymru  
Ryan Davies – Llywodraeth Cymru  
Dan Ricketts – Llywodraeth Cymru

**Ymddiheuriadau**

Peter Rees – Aelod Annibynnol  
Paddy McNaught - UNITE

**Eitem 1 - Croeso**

Croesawodd y Cadeirydd y mynychwyr i'r cyfarfod gan nodi dau ymddiheuriad.

**Eitem 2 – Diweddariad gan y Cadeirydd**

Nid oedd unrhyw beth i'w adrodd arno

**Eitem 3 – Cymeradwyo Nodiadau Cyfarfodydd 11 a 12 (4 Medi 2018)**

Trafodwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Panel.

Hefyd trafodwyd y Pwyntiau Gweithredu o'r cyfarfod blaenorol.

Mae'r weithdrefn o ran Asesiadau Effaith, y papur ar Statws Cyflogaeth a'r data ystadegol angenrheidiol ar gyfer Gorchymyn Cyflogau 2020 oll ar agenda'r cyfarfod hwn

- Darpariaeth band eang yng Nghymru – ni dderbyniwyd gwybodaeth bellach am hyn

- Crynodeb Gweithredol ar y newidiadau i Orchymyn Cyflogau Amaethyddol – ar waith i'w gario ymlaen i'r cyfarfod nesaf
- Amcangyfrifydd Cyflogau Ar-lein – mae'r gwaith yn barhaus ond mae'r ochr dechnegol yn fwy cymhleth na'r disgwyl. Rhoddir diweddariad pellach yn ystod y cyfarfod nesaf
- Syniadau ar Foderneiddio – dim byd penodol i'w nodi hyd yma

#### **Eitem 4 – Trafodaeth ar Ymatebion i'r Ymgynghoriad**

Derbyniwyd lefel ymateb wael iawn i'r ymgynghoriad ar fersiwn ddrafft Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol – derbyniwyd tri ymateb yn unig o dros 250 o bobl a sefydliadau y cysylltwyd â hwy.

Trafododd y Panel pam derbyniwyd lefel ymateb mor wael a sut i hysbysu ymgynghoriadau yn y dyfodol yn fwy eang, gan gynnwys hysbysebion neu ddatganiadau i'r wasg yng ngwasg y sector amaeth (*Farmers Weekly*, *Farmers Guardian* ayyb.) a defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Cytunwyd i edrych ar bolisiau Llywodraeth Cymru yn ymwneud â hysbysebu ymgynghoriadau ac adroddir yn ôl i'r Panel.

Cadarnhawyd pe bai pen isaf y Gorchymyn wedi'i effeithio gan newidiadau i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn y gyllideb ar 29 Hydref yna caiff y graddfeydd hyn eu cynyddu yn unol â hynny.

Ailddatganodd y Panel y ffigyrau a'r amodau cyflogaeth fel y nodwyd yn y Gorchymyn er dymunodd UNITE ei gwneud yn glir bod y cynnydd arfaethedig yn lefel isel iawn o wobrwyo. Erbyn hyn caiff y Gorchymyn ei symud yn ei flaen mor gyflym â phosib ac anfonir fersiwn ddrafft y Gorchymyn at y Gweinidog.

#### **Eitem 5 – I ystyried y Papur ar Statws Cyflogaeth a luniwyd gan Helen Snow a Peter Rees**

Dosbarthwyd copi o'r papur cyn y cyfarfod ond nodwyd y cafodd ei ddiwygio ddwywaith ers hynny - dosbarthwyd copïau o'r papur newydd.

Trafododd y Panel y papur. Bu dryswch o ran y gwahaniaethau rhwng Cyflogai a Gweithiwr a byddai'n haws i weithwyr amaeth naill ai bod yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig. Cytunwyd bod y rhain yn gysyniadau cyfreithiol sy'n anodd iawn eu hesbonio ond bod angen eu gosod mewn termau sy'n gwneud synnwyr yn y "byd go iawn".

Awgrymwyd y byddai'r ddogfen yn haws ei deall pe nodwyd bod tudalen gyntaf y ddogfen yn cynnwys yr economi yn ei chyfanrwydd ac yna'n trafod y sector amaeth

yn benodol. Gallai hefyd fod yn syniad i ddileu'r dudalen gyntaf yn gyfan gwbl ac i gynhyrchu dogfen i bobl sy'n gweithio yn y sector amaeth yn unig. Hefyd awgrymwyd y gellid ychwanegu dogfen Cwestiynau Cyffredin i'r papur a gellid ei ddiweddarau'n rheolaidd i helpu i ddatrys dryswch mewn achosion penodol a gellid ychwanegu cymorth gweledol megis siart lif i helpu i ddilyn y broses.

Cytunwyd y caiff y papur ei ail-lunio a chaiff ei drafod eto yn ystod y cyfarfod nesaf pan fydd angen ei gwblhau.

### **Eitem 6 – Diweddariad ar Asesiadau Effaith**

Rhoddwyd diweddariad i'r Panel ar y broses Asesu Effaith newydd a symlach sydd erbyn hyn yn cyfuno asesiadau risg gorfodol mewn un ddogfen. Dylai hyn helpu i gyflymu'r broses o newidiadau deddfwriaethol. Ni chodwyd unrhyw faterion gan y Panel.

### **Eitem 7 – Gorchymyn 2020 i'w Drafod**

Yn dilyn Cyfarfod 12 ynghylch y data ystadegol sylfaenol angenrheidiol ar gyfer Gorchymynion y dyfodol cadarnhawyd y trefnwyd cyfarfod ag Ystadegydd Adrannol Llywodraeth Cymru ar 31 Hydref i ddatod pwythau'r diffiniadau y cytunwyd arnynt yn ystod y cyfarfod diwethaf ac i dderbyn ei farn ar y dull gorau o dderbyn y wybodaeth hon er mwyn iddi fod yn gadarn gan gynnwys pa ystadegau sydd eisoes ar gael y gallem eu defnyddio.

Ailddatganwyd bod y data hwn yn hanfodol er mwyn moderneiddio'r Gorchymyn ac i allu cyflawni'r busnes y gofynnodd y Gweinidog i ni ei wneud.

### **Eitem 8 – Unrhyw Fater Arall**

Ni chodwyd unrhyw fater arall gan aelodau o amgylch y bwrdd

### **Eitem 9 – Y Cyfarfod Nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr 2019. Oherwydd nad oedd Peter Rees yn bresennol byddai angen cysylltu ag ef er mwyn trefnu dyddiad cyn gynted â phosib.

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.